Embargo llym tan 2 Mawrth, 2011

DATGANIAD I'R WASG

TROI PROBLEM YN ADNODD
Arddangosfeydd Cyhoeddus Prosiect Gwyrdd

Yn dilyn cyhoeddi'r rhestr fer ar gyfer y contract Prosiect Gwyrdd yn ddiweddar, bydd y bartneriaeth yn cynnal sesiynau gwybodaeth, galw heibio, yn agos i'r ardaloedd lle nodwyd safleoedd posibl, fel y gall trigolion gael y cyfle i holi'r bartneriaeth.

Bydd y sesiynau galw heibio'n digwydd ar y diwrnodau a'r amseroedd canlynol yn y lleoliadau isod:

- 7 Mawrth (11am tan 2 pm): Canolfan Gymunedol Fochriw, Fochriw.
- 8 Mawrth (5 pm tan 8pm): Canolfan Gymunedol Dewi Sant, Rhymni.
- 9 Mawrth (5 pm tan 8pm): Ystafelloedd Corfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri
- 10 Mawrth (5 pm tan 8pm): Stadiwm Pêl-droed NISV, Casnewydd.
- 11 Mawrth (11am tan 2 pm): Stadiwm Pêl-droed NISV, Casnewydd.
- 14 Mawrth (11am tan 2 pm): Neuadd y Sir, Bae Caerdydd
- 15 Mawrth (5 pm tan 8pm): Pafiliwn Bowlio Sblot, Caerdydd
- 16 Mawrth (11am tan 2 pm): Canolfan Gymunedol Palmerston, Y Barri
- 19 Mawrth (11am tan 4 pm): Abergavenny High Street, Y Fenni

Blaenoriaeth pob un o'r partneriaid yw ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl. Gosodwyd targedau ailgyfeirio tirlenwi caeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac os na chaiff y targedau hyn eu bodloni, rhoddir dirwyon llym ar awdurdodau lleol sy'n torri amodau eu lwfans tirlenwi.

Mae swm y gwastraff y gellir ei anfon i'w drin yn cael ei gapio yn unol â thelerau'r cyllid oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dywedodd y Cyng. Mark Stephens, Cadeirydd y Cyd Bwyllgor, sy'n rheoli'r project:

"Mae pob awdurdod partner wedi datblygu strategaethau gwastraff i reoli'r gwastraff yr ydym oll yn ei gynhyrchu. Mae gan bawb rôl i'w chwarae yn y gwaith o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl. Bydd y rhan fwyaf o'r gwastraff yn cael ei ailgyfeirio ar ymyl y ffordd drwy fentrau ailgylchu a chompostio. Mae'n hanfodol i'r cyhoedd ddeall y bydd y project yn darparu datrysiad ar gyfer trin gwastraff bin/bagiau du, nad ydyw'n ymarferol eu hailgylchu neu eu compostio.

"Cynhelir y digwyddiadau hyn yn ystod amser cinio a gyda'r nos i roi'r cyfle i drigolion siarad â'r bartneriaeth a'u holi. Mae'r angen i newid y ffordd y rheolir gwastraff yng Nghymru yn gwbl amlwg, ac ni ellir parhau ag anfon y rhan fwyaf o wastraff i'w dirlenwi. Mae profiad Ewrop yn dangos y gall triniaethau gwastraff gweddilliol fod yn effeithiol â chyfraddau ailgylchu a chompostio uchel. "

(Diwedd)

Nodiadau i Olygyddion.

Caffael, cyllid a llif gwastraff

- Cymeradwywyd y Gwahoddiad i Gyflwyno Datrysiadau Manwl (ISDS) gan y Cyd Bwyllgor ar 6 Rhagfyr, a chymeradwywyd hysbysu'r Cyfranogwyr ar 7 Rhagfyr gyda datganiad cyhoeddus ar 8 Rhagfyr.

- Mae'r cyfranogwyr canlynol (yn nhrefn yr wyddor) wedi derbyn dogfennau 'Datrysiadau Mawl', gan ddechrau'r cam nesaf yn y broses caffael.

Covanta Energy Ltd Mae Covanta Energy Ltd yn cynnig cyfleuster masnach Troi Gwastraff yn Ynni ym Mrig y Cwm, Merthyr Tudful.

Veolia ES Eurora Ltd: Mae Veolia ES Aurora Ltd yn cynnig Cyfleuster Adfer Ynni wedi'i leoli ar Gomin Bowlease, i'r De o'r Gwaith Dur presennol yn Llanwern, Casnewydd.

Viridor Waste Management Ltd: Mae Viridor Waste Management yn cynnig masnach Troi Gwastraff yn Ynni gyda chyfleuster Gwres a Phŵer Cyfunol wedi'i leoli ym Mharc Trident, Caerdydd.

Waste Recycling Group Ltd: Mae Waste Recycling Group Ltd yn cynnig Troi Gwastraff yn Ynni wedi'i gyfuno â chyfleuster Gwres a Phŵer ar Ffordd Caerdydd, safle Dow Corning, Y Barri.

- Rhagwelir y bydd caffael y project hwn yn cymryd Dwy (2) flynedd. Ceir crynodeb o'r amserlen isod:

  Hysbysu'r farchnad yn y Cyfnodolyn Ewropeaidd – Tachwedd 2009
  Holiadur Cyn-gymhwyso – gwanwyn 2010
  Dialog gydag ymgeiswyr – gwanwyn 2010 i haf 2011
  Y cynigiwr dewisol – hydref 2011
  Cwblhau'r contract a chynllunio - 2012

- Mae cyllid wedi'i sicrhau gan LICC trwy'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) a bydd yn cyfrannu 25% o ffi gât y dyfodol hyd at uchafswm o £9.124m mewn blwyddyn o'i weithredu'n llawn yn dibynnu ar gymeradwyo'r achos busnes terfynol ar gyfer y project. Mae lefel grant a ddyfernir ar gyfer Prosiect Gwyrdd yn seiliedig ar ragamcaniad o amcangyfrif y gost o ddarparu'r cyfleuster a bydd yn amrywio yn unol â'r costau gwirioneddol pan gymeradwyir yr achos Busnes Terfynol. Mae'n rhaid cadw'r cyfrifiad gwirioneddol yn fasnachol gyfrinachol gan y bydd y prosiect yn dilyn proses dendr masnachol.
- Dadansoddwyd 'Deilliannau Gwastraff' sy'n creu 'gwastraff gweddilliol' yn 2003, Mehefin 2009 a Thachwedd 2009 gan AEA Technology. Defnyddiwyd yr ymchwil hwn yn 2003 i baratoi data ar gyfer yr OBC ar gyfer Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg, tra bod data cyfansoddiadol penodol ar gael ar gyfer Caerffili a Chasnewydd. Ym Mehefin 2009 a Thachwedd 2009 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru AEA technology i wneud ymchwil pellach. Bydd yr ymchwil newydd hwn yn cael ei werthuso i ddarparu gwybodaeth ynghylch maint a chyfansoddiad 'gwastraff gweddilliol' ar gyfer caffael a chyfranogwyr. Mae'r briff 'Deilliannau Gwastraff' ar gael yn www.prosiectgwyrdd.co.uk

Ailgylchu a chompostio

- Amlinellwyd y targedau gwastraff canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

  2009/10 - 40% (15% o hynny yn gompostio, ond nid bwyd yn unig)
  2012/13 - 52% (12% o hynny yn darged bwyd penodol)
  2015/16 - 58% (14% o hynny yn darged bwyd penodol)
  2019/20 - 64% (16% o hynny yn darged bwyd penodol)
  2019/20 – uchafswm o 10% i'w waredu drwy dirlenwi
  2024/25 - 65/70% (18% o hynny yn darged bwyd penodol)
  2019/20 – uchafswm o 5% i'w waredu drwy dirlenwi
- Y cyfraddau ailgylchu a chompostio ar gyfer y 5 awdurdod partner yn Chwarter 2 2010 yw Caerdydd, 41.6, Caerffili 54.53, Sir Fynwy 50.02, Casnewydd 44.8 a Bro Morgannwg 40.88.

Ymgynghoriad Rhanddeiliaid

- Cynhaliwyd diwrnodau ac arolygon rhanddeiliaid rhwng Medi a Rhagfyr 2009 i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y Meini Prawf Gwerthuso. Trafodwyd ac aseswyd materion penodol gan geisio barn ar flaenoriaethau agweddau technegol, cymdeithasol, ariannol a chyfreithiol y Meini Prawf Gwerthuso.

Rheoleiddio ac ymchwilio i effeithiau iechyd canfyddedig

- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio pob cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni, a gellir lawrlwytho gwybodaeth ar y broses rheoleiddio oddi ar eu gwefan, www.environment-agency.co.uk <http://www.environment-agency.co.uk>
- Mae'n rhaid i'r holl brosesau gwastraff, sy'n cynnwys llosgi, gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff (CLlG). Mae'r ddeddf hon yn gosod rheolau caeth ar allyriadau pob mathau o dechnolegau Troi Gwastraff yn Ynni, gan gynnwys Pyrolisis, Nwyeiddio a Throi Gwastraff yn Ynni gyda Gwres a Phŵer Cyfunedig (Llosgi). Mae'r technolegau hyn yn ofynnol i fonitro allyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ar y lleiaf, â'r cyfyngiadau yng Nghyfarwyddeb Llosgi Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd (2000/76/EC) sy'n gosod rheolau allyrru caeth ar lygryddion. Rhoddwyd y Gyfarwyddeb ar waith yn Lloegr a Chymru dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007. O Ebrill 2008 defnyddiwyd y rhain yn lle Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2008. Gellir gweld canllawiau ar y ddeddfwriaeth hon drwy'r ddolen isod: http://www.defra.gov.uk/environment/policy/permits/documents/wid-guidance.pdf
- Cyhoeddodd Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd adroddiad yn Medi 2009, a oedd yn mynd i'r afael ag effeithiau iechyd canfyddedig llosgi gwastraff. Gellir gweld yr adroddiad drwy'r ddolen ganlynol: http://www.hpa.org.uk/web/HPAwebFile/HPAweb_C/1251473372218
- Mae'r effeithiau cymharol ar iechyd ar wahanol ddulliau o waredu gwastraff wedi cael eu hystyried yn fanwl mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra 2004). Gellir gweld crynodeb o'r ymchwil helaeth hwn drwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://www.defra.gov.uk/environment/waste/statistics/documents/health-summary.pdf

- Mae'r ymchwil 'Adolygiad o Effeithiau Rheoli Gwastraff Dinesig Solid a Gwastraff Tebyg ar yr Amgylchedd ac Iechyd', yn ystyried 23 astudiaeth ansawdd uchel ar batrymau afiechyd o amgylch cyfleusterau Troi Gwastraff yn Ynni a phedwar papur adolygu gan gydweithwyr yn edrych ar effeithiau iechyd cyfleusterau Troi

Gwastraff yn Ynni. Daethpwyd i'r casgliad nad oes unrhyw gysylltiad argyhoeddiadol rhwng cyfleusterau Troi Gwastraff yn Ynni ac effeithiau anffafriol ar iechyd y cyhoedd <http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/5_wip_health_2147990.pdf>

(Diwedd)

Paratowyd gan Prosiect Gwyrdd
E-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
Rhif Ffôn: 02920 717566 neu 07976 519413